# Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam

2023-2026

**Cyngor Bwdreistref Sirol Wrecsam**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) Wrecsam? | 3 |
| Dyletswyddau a swyddogaethau statudol PDC | 3 |
| Ein Ffyrdd o Weithio | 4 |
| Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol | 5 |
| Dulliau Cydlynol | 5 |
| Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol | 7 |

# Beth yw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) Wrecsam?

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDCau) yn un o ofynion Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae PDCau yn cynnwys awdurdodau cyfrifol sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu eu cymunedau lleol rhag trosedd a helpu pobl i deimlo'n fwy diogel. Mae'r PDC yn asesu blaenoriaethau lleol o ran trosedd ac yn ymgynghori â phartneriaid a'r gymuned leol ynghylch sut i ddelio â nhw; gallai'r rhain fod ynghylch categorïau fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau treisgar a chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.

Mae'r 'awdurdodau cyfrifol' sy'n rhan o'r PDC fel a ganlyn:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)
- Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

# Dyletswyddau a swyddogaethau statudol PDC

Er bod PDCau yn gyfrifol am amrywiaeth eang o weithgarwch, eu rhwymedigaethau statudol yw'r canlynol:

- Sefydlu grŵp strategol i gyfarwyddo gwaith y bartneriaeth (Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol)
- Sefydlu protocolau a systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- Dadansoddi amrywiaeth eang o ddata, gan gynnwys lefelau a phatrymau trosedd, er mwyn nodi blaenoriaethau
- Gosod cynllun partneriaeth a monitro cynnydd
- Comisiynu adolygiadau Lladdiadau Trais Domestig
- Ymgysylltu'n rheolaidd â'r gymuned ac ymgynghori â nhw ynglŷn â'u blaenoriaethau a'r cynnydd o ran eu cyflawni.

Mae'r cynllun hwn yn nodi pedair blaenoriaeth ar gyfer PDC Wrecsam. Eu nod yw cynorthwyo canlyniad strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, 'Teg a Diogel.' Mae'r nod hwn yn cael ei rannu gan aelodau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Drwy fynd i'r afael â materion lleol fel y rhain o fewn ein blaenoriaethau strategol, rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu gwella hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn partneriaid lleol i wneud Wrecsam yn fwy diogel.

# Ein Ffyrdd o Weithio

Mae ein ffyrdd o weithio yn cael eu harwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y byddant yn ei chael ar genedlaethau'r dyfodol (yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy). Fel PDC, rydym yn dilyn y pum ffordd o weithio a amlinellir yn y Ddeddf i sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy:

- Hirdymor - Byddwn yn cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu ein gallu i fodloni anghenion tymor hwy.
- Atal - Byddwn yn gweithredu, lle bynnag y bo'n bosibl, i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- Integreiddio - Byddwn yn ystyried sut mae ein cynlluniau a'n gweithredoedd unigol a chyfunol gwahanol yn effeithio ar wahanol ganlyniadau a materion.
- Cydweithredu - Byddwn yn cydweithio â phobl a sefydliadau a all ein helpu i gyflawni ein hamcanion ar y cyd.
- Cyfranogiad - Byddwn yn ymdrechu i gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni ein hamcanion, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth ein Bwrdeistref Sirol.

Yn ogystal â'r ffyrdd hyn o weithio, byddwn yn sicrhau bod y gwaith a wnawn yn:

- Seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei arwain gan wybodaeth;
- Cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol;
- Meddu ar adnoddau cynaliadwy ac yn briodol yn lleol;
- Ymgysylltu â thrigolion ac yn eu cynnwys;
- Ymyrryd ac yn atal cyn gynted â phosibl;
- Canolbwyntio ar welliannau a buddion hirdymor.

# Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

## 2023 - 2026

Mae blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam yn cyd-fynd â blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel, Cynllun Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, a Blaenoriaeth 'Sicrhau bod Wrecsam yn lle diogel' Cynllun Cyngor Wrecsam. Mae partneriaid wedi ymrwymo'n benodol i weithio gyda'i gilydd ar y blaenoriaethau canlynol dros y cyfnod o dair blynedd:

- Atal Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- Mynd i'r afael â throseddu treisgar a throseddu cyfundrefnol difrifol
- Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd.

# Dulliau Cydlynol

Mae'r PDC wedi ymrwymo i ddull cydlynol sy'n mynd i'r afael â materion sylfaenol ac ysgogwyr troseddau, a chanfyddiadau o Ddiogelwch Cymunedol.

Mae hyn yn cynnwys:

## Camddefnyddio sylweddau

Bydd ystyried camddefnyddio sylweddau yn thema drawsbynciol ar draws ein blaenoriaethau strategol a bydd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â hyn drwy gymorth drwy ymyrraeth a thriniaeth, ond hefyd gweithgaredd gorfodi pan fo angen.

## Iechyd meddwl

Mae rhai o'r unigolion sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, gyda phobl mewn perygl arbennig yn ystod ac ar ôl dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Trwy nodi a mynd i'r afael ag afiechyd meddwl cyn gynted â phosibl, gallwn anelu at y canlyniadau gorau i'r bobl hynny sy'n profi problemau iechyd meddwl a rhoi cymorth cyfannol i bobl ag anghenion cymhleth a heriol.

## Cydlyniant cymunedol

Nod y rhaglen Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yw cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cydlyniant cymunedol ar draws meysydd polisi a darpariaeth gwasanaethau, trwy datblygu dull rhanbarthol o fynd i'r afael â materion fel troseddau casineb ac eithafiaeth. Gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i greu cyfleoedd ystyrlon sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol, a chydlynu cyfleoedd hyfforddi.

## Yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym

Yn 2023, fe ymgynghorodd Cyngor Sir Wrecsam ar Gynllun y Cyngor dan flaenoriaeth 'Sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.'

- Roedd 75% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y canlyniad 'Mae cymunedau'n fwy diogel, ac yn teimlo'n fwy diogel, gyda llai o bobl yn cael eu heffeithio gan drosedd, a gwell cymorth i ddioddefwyr troseddau' yn ein helpu i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.
- Roedd 71.4% o bobl yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y canlyniad 'Mae mwy o bobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag cam-fanteisio, trais a phob math o gamdriniaeth' yn ein helpu i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.
- Roedd 71.2% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y canlyniad 'Mae ein cymunedau'n groesawgar. Rydym yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth a diwylliannau ein cymunedau ac yn sicrhau mynediad priodol i'r holl wasanaethau i bawb' yn ein helpu i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.

# Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

## 1. Atal Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

### Nod

Bydd aelodau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio mewn partneriaeth, gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar atebion, i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled Wrecsam.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud?

- Hwyluso grwpiau amlasiantaethol i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, a mynd i'r afael â'r galw ac ad-droseddwyr trwy'r
    - Panel Bregusrwydd a Rheoli Risg
    - Fforwm Materion sy'n Codi
    - Grŵp Darparwyr
    - Panel Brysbennu GCI
    - Panel Rheoli Integredig Troseddwyr
- Byddwn yn cyflwyno sesiynau cyffuriau ac alcohol ym mhob ysgol uwchradd (drwy ABCh), gan gwmpasu gwybodaeth am ganlyniadau iechyd, troseddol a chymdeithasol defnyddio cyffuriau ac alcohol.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid fel Safonau Masnach i nodi ymyriadau ynghylch sgamiau Twyll a Seiberdrosedd.
- Byddwn yn cefnogi'r Prosiect Lleihau Rhagor ar Niwed, i gefnogi'r rhai ag anghenion cymhleth (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau) i ymgysylltu â'r gwasanaethau hynny a all gynnig cymorth, atebion a thriniaeth.
- Sefydlu Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch ar gyfer pob digwyddiad cyhoeddus mawr (e.e. cyngherddau, digwyddiadau chwaraeon). Mae'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch yn gweithredu mewn rôl gynghori, gan roi cyngor annibynnol ar ddiogelwch cyhoeddus i drefnwyr digwyddiadau. Mae Wrecsam yn croesawu digwyddiadau o'r fath sy'n cyfrannu at gymuned fywiog, ond mae am sicrhau bod y rhain yn cael eu gwneud mor ddiogel â phosibl a bod trefnwyr yn cymryd pob cam rhesymol i leihau unrhyw risgiau i'r cyhoedd.

**Sut olwg fydd ar lwyddiant:**

- Bydd llai o droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, lle mae alcohol neu gyffuriau yn ffactor sy'n cyfrannu.
- Datblygu rhaglenni addysg a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer pobl ifanc ac ymarferwyr ynghylch meysydd troseddau cyllyll, cyffuriau, llinellau cyffuriau, cam-fanteisio a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.
- Gostwng lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Lleihau nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol am y tro cyntaf. (Pobl Ifanc)
- Lleihau aildroseddu gan yr unigolion hynny sy'n achosi'r niwed mwyaf i gymunedau.

## 2. Gweithio mewn Partneriaeth i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Amlygodd Asesiad Anghenion Strategol Trais Difrifol Gogledd Cymru mai trais domestig yw un o'r bygythiadau mwyaf i ddiogelwch ein cymunedau. Rydym hefyd yn deall bod trais yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, ac felly rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Wrecsam yn lle diogel iddynt. Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau treisgar yn digwydd yn y cartref ac er bod nifer o wasanaethau a chymorth sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ar gael yn ardal Wrecsam i helpu unigolion a theuluoedd, rydym yn ymdrechu i gael Wrecsam lle nad yw cam-drin domestig yn bodoli. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni ganolbwyntio ar ein dull ataliol, yn enwedig trwy ddeall y llwybrau sy'n arwain dynion ifanc i ddod yn gyflawnwyr cam-drin ac anelu at fynd i'r afael â hyn drwy gefnogi partneriaid i herio eu hagweddau a'u credoau gan dorri'r cylch.

Mae gwaith PDC Wrecsam yn cyd-fynd â Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru sy'n nodi ein hamcanion rhanbarthol mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

### Nod

Creu ymateb cydlynol, effeithlon a chynhyrchiol i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

### What will we do?

- Cefnogi'r agenda VAWDASV, gyda ffocws penodol ar ddiogelwch Menywod a Merched yn Wrecsam, yn enwedig o fewn economi'r nos.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid eraill gan gynnwys y trydydd sector ar godi ymwybyddiaeth o VAWDASV (gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd h.y. cam-drin ymhlith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, yr henoed).

### Sut olwg fydd ar lwyddiant

- Gostyngiad yn nifer yr achosion o Drais Domestig yn Wrecsam.
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddioddefwyr gymryd rhan drwy hyfforddiant perthnasol a chodi ymwybyddiaeth.

## 3. Mynd i'r afael â Throseddu Treisgar a Throseddu Cyfundrefnol Difrifol

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â thrais difrifol ledled Cymru a Lloegr, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Strategaeth Trais Difrifol yn 2018, gyda'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn dod i rym o fis Ionawr 2023 ar gyfer pob ardal yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Ddyletswydd hon yn canolbwyntio ar ddod â phartneriaid ynghyd, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, ac asiantaethau iechyd a chyfiawnder troseddol penodedig, i fynd i'r afael â thrais difrifol a'i achosion sylfaenol mewn ardaloedd lleol.

Mewn ymateb i'r ddyletswydd, mae strategaeth Gogledd Cymru heb drais wedi'i datblygu, wedi'i seilio ar asesiad anghenion cynhwysfawr. Mae'r strategaeth yn amlinellu pedwar maes blaenoriaeth sy'n ymwneud â VAWDASV, Diogelu Cyd-destunol, datblygu ein data a'n tystiolaeth, ac adeiladu dulliau ataliol sy'n ystyriol o drawma.

### Nod

Ystyried mater troseddau treisgar difrifol, a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ymyriadau priodol ar waith. Codi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd, yn enwedig pobl ifanc, am beryglon cam-fanteisio.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud?

- Cynnull grŵp Troseddau Cyfundrefnol Difrifol i gyfarwyddo gweithredoedd yn y maes hwn
- Sicrhau bod Wrecsam yn ymateb mewn partneriaeth â'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd.
- Datblygu proses lle gall partneriaid nodi unigolion a allai fod yn wynebu'r perygl mwyaf o gael eu cam-fanteisio arnynt drwy gogio (cuckooing), er mwyn cyfeirio cymorth ac ymyriadau i atal hyn rhag digwydd.
- Datblygu hyfforddiant a/neu gyfeirio at hyfforddiant presennol, a gweithio i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymhlith ein sefydliadau ein hunain, busnesau lleol a'r cyhoedd.
- Sicrhau bod yr holl blant yr adroddir eu bod ar goll yn cael cyfweliad ar goll o gartref yn unol â gweithdrefnau diogelu.

### Sut olwg fydd ar lwyddiant?

- Cynnydd mewn cyfranogiad partneriaeth mewn cynlluniau i fynd i'r afael â Throseddu Cyfundrefnol Difrifol.
- Cynnydd yn yr unigolion hynny yr ystyrir eu bod yn agored i gam-fanteisio sy'n cael eu hadnabod.

## 4. Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

### Nod

Adeiladu perthnasau cynaliadwy ac ystyrlon gyda chymunedau yn Wrecsam i sicrhau hyder wrth godi pryderon ynghylch trosedd, cymuned a materion yn ymwneud â diogelwch ffyrdd.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- Ymgysylltu â chymunedau ac asiantaethau partner i ddeall a mynd i'r afael â mynychder ac effaith troseddau casineb a sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith ar gyfer adrodd ac ymateb i ddigwyddiadau o'r fath yn hyderus.
- Datblygu argymhellion mewn perthynas â chefnogi pobl sy'n agored i niwed gydag asiantaethau partner sy'n deillio o'r dystiolaeth ym Mhroffil Cymunedol Sir y Fflint a Wrecsam.
- Addysgu trigolion drwy gyhoeddi ymgyrchoedd rheolaidd trwy Fentrau Diogelwch Cymunedol.
- Ymgysylltu â chymunedau ac asiantaethau partner i ddeall effaith troseddau casineb a sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith ar gyfer adrodd am achosion o'r fath.
- Byddwn yn parhau i roi cymorth lles a chymorth cyntaf i'r bobl hynny ar nosweithiau allan yng nghanol dinas Wrecsam, trwy Ganolfan Lles Hafan-y-Dref.
- Nodi ffrydiau ariannu addas i gynyddu Adnoddau Diogelwch Cymunedol yn Wrecsam, er enghraifft Strydoedd Saffach y Swyddfa Gartref.

### Sut olwg fydd ar lwyddiant:

- Cynyddu nifer yr unigolion (agored i niwed gweladwy) sy'n manteisio ar wasanaethau.
- Gweithredu argymhellion a nodwyd drwy'r Pecyn Cymorth Dyletswydd PREVENT (Gwrthderfysgaeth)
- Gweithredu Cyfraith Martyn a chyfrifoldebau PROTECT eraill (Gwrthderfysgaeth).
- Llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol a/neu gyffuriau.
- Byddwn yn gweithio gyda thafarnwyr lleol i hyrwyddo rheolaeth a gweithrediad cyfrifol safleoedd â thrwydded alcohol (trwy'r cynllun Braf Bob Nos achrededig).